S4C



# Adlewyrchu Cymru ac edrych ar ein hunain: amrywiaeth ar y sgrin a thu ôl i'r camera

## Ymrwymiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad S4C

# Reflecting Wales and looking at ourselves: diversity on screen and behind the camera

## S4C's Commitment to Equality, Diversity and Inclusion

**Rhagfyr 2018 – Hydref 2021**

December 2018 – October 2021





Cyflwyniad

Mae cymunedau Cymru yn fwy amrywiol nag erioed ac yn parhau i newid ac esblygu. Os ydym am gynrychioli Cymru a'n cynulleidfa ar y sgrin, gan sicrhau cynnwys sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes, mae'n rhaid inni gymryd camau penodol i gryfhau sut rydym yn portreadu amrywiaeth a sicrhau cysondeb o fewn ein cynnwys a'n rhaglenni. Fel yr unig sianel deledu Gymraeg, a'r darlledwr sy'n comisiynu'r mwyaf o oriau o Gymru bob blwyddyn, dylem ni fod yn dangos arweiniad.

Mae S4C yn ddarlledwr bach o ran y niferoedd gaiff eu cyflogi yn uniongyrchol yma, ond mae gennym ni ardrawiad sylweddol ar y sector yng Nghymru. Gweithiodd dros 50 o gwmnïau inni yn 2017/18. Mae gan S4C gyfle felly i drawsnewid y ffordd y caiff cynhwysedd ei gweld ar y sgrin ac i greu gweithlu sy'n adlewyrchu'r Gymru fodern ac yn dod â'r straeon am Gymry heddiw i'r sgrin.

Ac wrth gwrs, er nad yw'n nodwedd gwarchodedig, mae'r iaith Gymraeg ei hun yn rhan gynhenid o amrywiaeth Cymru a'r DU. Mae gan ein cynnwys ran gynyddol bwysig i'w chwarae o ran cefnogi a meithrin y defnydd o'r iaith a'r nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 Byddwn yn parhau i sicrhau a datblygu ffyrdd y gall ein cynulleidfaoedd - yn rhugl, yn dysgu neu ddim yn siarad yr iaith - wylio ein cynnwys a bod yn rhan o'r ymrwymiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad hwn.

Heddiw

Mae amrywiaeth yn faes yr ydym wedi ei adlewyrchu ar y sgrin yn y blynyddoedd diwethaf o ran ein cyflwynwyr a'n cyfranwyr a themâu ein cynnwys – yn ffeithiol a drama. Mae ein gwasanaeth ffurf-fer Hansh yn cael ei werthfawrogi am ei amrywiaeth a phortread. Fel cyflogwr, mae gennym weithdrefnau mewn lle o ran ein dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Ddeddf Cyfathrebu 2003 ac rydym yn annog y sector hefyd i gydymffurfio gyda'r egwyddorion hyn.

Gyda chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd yn dod fwyfwy amlwg wrth i'r darlledwyr adlewyrchu eu cynulleidfaoedd heddiw, mae'n amserol i ddiwygio ein prosesau. Ein nod yw trawsnewid y ffordd yr ydym yn ystyried amrywiaeth – ar y sgrin a thu ôl i'r camera - dros gyfnod o dair blynedd.

Y Cyfeiriad

Mae ymrwymiad amrywiaeth S4C yn cychwyn drwy edrych ar dair elfen:

1. **S4C yn fewnol**
2. **Y Sgrin a'r Sector**
3. **Creu Cysylltiadau**

Introduction

The communities of Wales are more diverse than ever and continue to change and evolve. If we are to represent Wales and our audience on screen, ensuring content that reflects contemporary Wales, we must take specific action to strengthen the way we portray diversity and to ensure consistency within our content and our programmes. As the only Welsh language television channel, and the broadcaster that commissions the most hours from Wales each year, we should be showing leadership.

S4C is a small broadcaster in terms of the numbers it employs directly, but we have a significant impact on the sector in Wales. Over 50 companies worked for us in 2017/18. S4C has an opportunity therefore to transform the way in which inclusion is seen onscreen and to create a workforce that reflects contemporary Wales and brings stories about the people of Wales today to the screen.

And of course, although it is not a protected characteristic, the Welsh language itself is an integral part of the diversity of Wales and the UK. Our content has an increasingly important role to play in supporting and nurturing the use of the language and the goal of a million Welsh speakers by 2050. We will continue to secure and develop the ways in which our audiences – whether fluent in the language, learning the language, or non-Welsh speakers – watch our content and are a part of this ED&I commitment.

Today

Diversity is an issue that we have reflected on screen in recent years in terms of our presenters and contributors and the themes of our content – both factual and drama. Our short-form online brandHansh is appreciated for its inclusivity and portrayal.. As an employer, we have procedures in place in relation to our general equality duty under the Equality Act 2010 and the Communications Act 2003 and we also encourage the sector to comply with these principles.

With equality, diversity and inclusion becoming increasingly prominent as broadcasters reflect their audiences, amending our processes is timely. Our aim is to transform the way we consider diversity – on-screen and behind the camera – over a three-year period.

Direction

S4C's commitment to diversity begins by looking at three elements:

1. S4C in-house
2. The Screen and the Sector
3. Creating Connections



## S4C YN FEWNOL

Cefnogi amrywiaeth o fewn ein gweithlu.

Os ydym am gynrychioli Cymru a'n cynulleidfa ar y sgrin, gan sicrhau cynnwys sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes, mae'n rhaid inni gymryd camau penodol i gryfhau sut rydym yn portreadu amrywiaeth Cymru a sicrhau cysondeb o fewn ein cynnwys a'n rhaglenni. Bydd gweithlu amrywiol yn sicrhau portread fwy cynrychiadol o Gymru ar y sgrin ac yn rhoi llais i gymunedau nad ydynt efallai wedi cael llais ar S4C hyd yma.

### i. CIPLUN BLYNYDDOL O'N GWEITHLU

**AMCAN:** gweld sut mae ein gweithlu yn edrych ac yn nodi eu hun.

**BETH?** Yn ddiweddar, mae S4C wedi bod o dan y trothwy o ran niferoedd staff ble mae angen adrodd ar ein gweithlu, ond yn 2017, gofynnwyd i staff gymryd rhan mewn holiadur gwirfoddol er mwyn i S4C gyfrannu at astudiaeth ehangach Ofcom o amrywiaeth yn y sector ddarlledu. Byddwn yn cynnal arolwg blynyddol o hyn ymlaen ac fe wnaethom gynnwys cwestiynau ehangach i edrych ar elfennau symudedd cymdeithasol yn 2018.

Bydd hyn yn rhoi trosolwg inni o sut mae S4C yn edrych a syniad o'r trywydd sydd angen ein ddilyn.

**PRYD?:** o fis Mehefin 2018+ ac yn flynyddol. Mae'r canlyniadau yn bwydo i bolisïau a chynlluniau S4C o 2018+.

## S4C IN-HOUSE

Supporting diversity within our workforce

If we are to represent Wales and our audience on-screen by ensuring content that reflects contemporary Wales, we must take specific action to strengthen the way we portray the diversity of Wales and to ensure consistency within our content and our programmes. A diverse workforce will ensure a more representative portrayal of Wales on screen and provide a voice for communities that may not yet have had a voice on S4C.

### i. ANNUAL SNAPSHOT OF OUR WORKFORCE

**OBJECTIVE:** to see how our workforce views and identifies itself.

**WHAT?** S4C has been below the workforce reporting threshold in recent years but in 2017, staff were asked to participate in a voluntary questionnaire so that S4C could contribute to the wider Ofcom study of diversity in the broadcasting sector. We will conduct an annual survey from now on and we have included more wide-ranging questions in order to look at social mobility elements 2018.

This will give us an overview of how S4C looks and an idea of the path that needs to be followed.

**WHEN?:** from June 2018+ and annually. The results are feeding into S4C's policies and plans from 2018+.







Drych: Or Ysgol prom Bodedern

## ii. ARWAIN DRWY DDATBLYGU GWEITHLU AMRYWIOL A CHRYF

**AMCAN:** meithrin y dalent orau er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ein cynulleidfa

**BETH?** Byddwn yn:

- parhau i gynnig **hyfforddiant amrywiaeth i staff** fel eu bod yn deall a gweithredu egwyddorion ac amcanion amrywiaeth a chyfle cyfartal S4C. Bydd sesiynau amrywiaeth yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ac yn cael eu cynnig i staff newydd yn ogystal â'r gweithlu presennol. Byddant yn agored i aelodau Bwrdd yr Awdurdod ac rydym yn edrych ar agor y sesiynau i'r sector.
- creu **rhwydwaith amrywiaeth fydd yn agored i gynrychiolaeth o bob adran yn S4C**. Mae'r rhwydwaith yn cychwyn i gyd-fynd gyda lansiad yr ymrwymiad hwn a bydd yn weithredol ar draws tair swyddfa S4C. Bydd yn gyfle i glywed gan siaradwyr a phartneriaid o faes amrywiaeth ac i drafod. Byddwn yn agor y sesiynau i'r sector hefyd.
- cymryd **camau penodol i gynyddu amrywiaeth wrth inni recriwtio yn fwy eang yn y dyfodol**, gan gynnwys sicrhau bod ein swyddi a'n cyfleoedd yn cael eu hysbysebu fel bod cynulleidfa fwy amrywiol yn eu gweld. Byddwn yn edrych ar sut y gallwn gefnogi ceisiadau llwyddiannus gan y rhai y mae'r nodweddion gwarchodedig a symudedd cymdeithasol yn berthnasol iddynt. Byddwn yn mesur y llwyddiant drwy gofnodi ble bydd pobl wedi clywed am swyddi gwag a thrwy'r holiadur blynyddol, gwirfoddol i staff.
- **annog pobl o bob cefndir i ystyried S4C a'r diwydiant fel lle gwaith**. Fel rhan o hyn rydym yn edrych ar yr hyn yr ydym yn ei gynnig i'r rhai sydd yn ystyried y diwydiant fel lle i ddilyn gyrfa. Mae hyn yn cynnwys prentisiaethau, cynllun profiad gwaith newydd, a chyswllt gyda digwyddiadau gyrfaoedd sydd eisoes wedi eu sefydlu. Byddwn yn cyhoeddi ein cynnig newydd yn 2019. Rydym eisoes yn trafod gyda phartneriaid a chynlluniau sy'n rhedeg mewn ysgolion er mwyn meithrin talent y dyfodol.
- **gweithredu i ddangos ein bod yn gyflogwr a chomisiynydd chynhwysol** drwy ddod yn rhan o gynlluniau cyflogwyr i ddangos ein hymrwymiad yn hyn i'r rhai sy'n ystyried dod i weithio yn y sector (erbyn haf 2019).

**PRYD?** eisoes ar y gweill. Cyhoeddir cynllun newydd hyfforddiant S4C yn 2019. Bydd y cynlluniau cyflogwr yn cychwyn o fis Ionawr 2019.



## ii. LEADING THROUGH DEVELOPING A STRONG AND DIVERSE WORKFORCE

**OBJECTIVE:** to foster the best talent to reflect the diversity of our audience

**WHAT?** We will:

- **continue to offer diversity training to staff** so that they understand and implement S4C's diversity and equal opportunities principles and objectives. Diversity sessions will be offered to new staff along with the current workforce. They will be open to members of the Authority Board and we are looking to open the sessions to the sector.
- **create a diversity network that is open to representation from all S4C departments**. The network is being launched with this commitment and will work across all three of S4C's offices. It will be an opportunity to hear from speakers and partners with experience in diversity, and to discuss issues. We will also open the sessions to the sector.
- **take specific action to increase diversity as we recruit more widely in the future**, including ensuring that our jobs and opportunities are advertised so that they are seen by a more diverse audience. We will look at how we can support successful applications from those for whom protected characteristics and social mobility are relevant. We will measure success by recording where people have heard about vacancies and through the annual, voluntary staff questionnaire.
- **encourage people from all backgrounds to consider S4C and the industry as a workplace**. As part of this, we are looking at what we offer to those who are considering the industry as a place in which to pursue a career. This includes apprenticeships, a new work experience scheme, and participation in established careers events. We will announce our new proposal in 2019. We are already having discussions with partners, and schemes are in place in schools to nurture future talent.
- **take action to show that we are an inclusive employer and commissioner** by participating in schemes that demonstrate this commitment to those who might want to work in the sector (by summer 2019).

**WHEN?** already underway. S4C's new skills and training proposal will be announced in 2019. Our commitment to employer schemes is being implemented from January 2019.


C.I. LAYLA DAVIES
CWM AFAN HEDDLU POLICE

### iii. AMRYWIAETH AR Y SGRIN

**AMCAN:** adlewyrchu Cymru a'r Cymry yn ein cynnwys.

**BETH?** Byddwn yn:

- **atgoffa'n cyflenwyr o bwysigrwydd ystyried amrywiaeth wrth greu cynnwys i S4C.** Bydd hyn yn digwydd yn ystod y cyfarfodydd chwarterol sy'n cael eu cynnal gyda'r sector ac mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng y comisiynwyr unigol a'r cwmnïau cynhyrchu.

- **rhyddhau ffilm fer fydd yn tanlinellu ymrwymiad S4C i amrywiaeth ar y sgrin**. Bydd yn dathlu'r amrywiaeth sydd wedi bod yn ein cynnwys ac yn gosod her i'n cyflenwyr i ddatblygu'r drafodaeth yn y cynnwys gaiff ei gynnig inni.

**PRYD?:** o hydref 2018+.

**2. Y SGRIN A'R SECTOR**
**AMCAN:** Datblygu darlun o sut mae'r sector sy'n creu cynnwys inni yn edrych

**BETH? Byddwn yn gweithio gyda TAC i annog ein partneriaid yn y sector gynhyrchu i lenwi'r holiadur blynyddol inni gael syniad o sut y mae'r diwydiant ehangach** yng Nghymru yn edrych a ble dylem fod yn canolbwyntio ein hymdrechion. Bydd gweithlu amrywiol yn sicrhau portread fwy cynrychiadol o Gymru ar y sgrin ac yn rhoi llais i gymunedau sydd efallai heb gael llais ar S4C hyd yma.

**PRYD?** Gwanwyn 2019+

**CEFNOGI'R SECTOR I DDATBLYGU GWEITHLU AMRYWIOL A CHRYF AMCAN:** meithrin y dalent orau er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ein cynulleidfa

**BETH? Byddwn yn annog y sector i ddilyn arweiniad S4C gan gynnwys:**

- cymryd camau penodol i gynyddu amrywiaeth wrth iddynt recriwtio ac ystyried dilyn cynlluniau S4C e.e. sicrhau cyfweliadau i'r rhai y mae'r nodweddion gwarchodedig a symudedd cymdeithasol yn berthnasol iddynt;

- rannu eu cynlluniau amrywiaeth a chynlluniau profiad gwaith gydag S4C;

- weithio gydag S4C wrth inni ddatblygu ein cynnig newydd i ddenu gweithlu amrywiol i'r sector gan gynnwys prentisiaethau a lleoliadau gwaith cyn cyhoeddiad yn 2019;

- castio yn eang a chynhwysol wrth greu cynnwys inni fel y bydd y straeon gaiff eu hadrodd yn rhoi adlewyrchiad o'r cymunedau a'r gwylwyr y mae S4C yn eu gwasanaethu;

- dangos eu bod yn gyflogwyr cynhwysol drwy ddod yn rhan o gynlluniau sy'n cefnogi hynny.

**PRYD?** 2019+



### iii. DIVERSITY ON SCREEN

**OBJECTIVE:** to reflect Wales and the people of Wales in our content.

**WHAT?** We will:

- **remind suppliers of the importance of ED&I when creating content for S4C**. This will take place during quarterly meetings with the sector and at regular meetings between individual commissioners and production companies.

- **release a short film highlighting S4C's commitment to diversity on screen.** It will celebrate the diversity our content and challenge our suppliers to develop the discussion in the content offered to us.

**WHEN?:** from autumn 2018+.

**2. THE SCREEN AND THE SECTOR**
**OBJECTIVE:** To develop a picture of how the content-production sector looks

**WHAT? We will work with TAC to encourage our partners in the production sector to complete the annual questionnaire so that we have an idea of how the wider industry in Wales looks** and where we should focus our efforts. A diverse workforce will ensure a more representative portrayal of Wales on screen and give communities a voice that they may not yet have had on S4C.

**WHEN?** Spring 2019+

**SUPPORTING THE SECTOR TO DEVELOP A STRONG AND DIVERSE WORKFORCE:** nurturing the best talent to reflect the diversity of our audience

**WHAT?** We will **encourage the sector to follow S4C's lead**, including:

- taking specific action to increase diversity in their recruitment and to consider taking part in S4C schemes, e.g. ensuring interviews for those for whom protected characteristics and social mobility are relevant;

- sharing their diversity and work experience schemes with S4C

- working with S4C as we develop our new proposal to attract a diverse workforce to the sector, including apprenticeships and work placements before an announcement in 2019;

- wide-ranging and inclusive casting when producing content for us so that the stories being told reflect communities and viewers served by S4C;

- demonstrating that they are inclusive employers by taking part in schemes to support this.

**WHEN?** 2019+



Cefn Gwlad



Drych: Chdi, Fi ac IVF





HANSH






Jonathan



Bwyd Epic Chris

## 3. CREU CYSYLLTIADAU

**AMCAN:** Dod i adnabod grwpiau a sefydliadau amrywiol ledled Cymru

**BETH:** Ehangu ein cysylltiad gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau gwahanol. Byddwn yn eu cyflwyno i'n cynnwys ac yn eu hannog i ystyried gweithio yn y diwydiant. Byddwn yn annog y sector yn gryf i wneud hyn hefyd.

**SUT:**

- **parhau i gefnogi talent a lleisiau newydd amrywiol.** Rydym yn cefnogi talent newydd eisoes drwy gynlluniau fel It's My Shout ac yn cefnogi lleisiau amrywiol drwy ein perthynas gyda Gwobr Iris a'n cefnogaeth o'r ffilm Gymraeg yno;

- **annog y sector i ehangu eu cysylltiadau a'r pwll talent y maent yn ei ddefnyddio fel cyfranwyr, actorion a thu ôl i'r camera** ac i weithio gyda rhai sydd eisoes yn arwain yn y maes e.e. Ffilm Cymru Wales, Hi-Jinx, Llywodraeth Cymru, a Diverse Cymru;

- **rhannu arfer gorau e.e.** gwaith y CDN a chyfeirio pobl at bartneriaid amrywiaeth drwy ein gwefan;

- **defnyddio ein cynnwys llwyddiannus i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd**: e.e. edrych ar fynd â sioeau Cyw i ysgolion sydd ddim yn Gymraeg iaith gyntaf ac ardaloedd gwahanol, mwy amrywiol, a dangosiadau mewn lleoliadau a chymunedau gwahanol i'r arfer, gan gynnwys ardaloedd a chymunedau difreintiedig. perthnasedd o ran nod llywodraeth Cymru i ddatblygu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac

- **edrych am gyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid eraill diwylliannol ym maes amrywiaeth.**

**PRYD:** eisoes ar waith (Sioeau Cyw o 2019 ymlaen)

**I GLOI**

**Nid amrywiaeth er mewn amrywiaeth yw hyn ond cychwyn y daith o osod strwythur i gefnogi, fel bod S4C, y cynnwys sy'n cael ei greu i ni, a'r diwydiant, yn hyderus yn adlewyrchu ein cenedl ac yn cyffwrdd calon y gynulleidfa. Bydd hyn yn cryfhau a chyfoethogi ein cynnwys, gan sicrhau fod ystod ehangach o gyfranwyr ar y sgrin, a'u profiadau a'u lleisiau yn cael eu clywed.**

Nid yw S4C yn cynhyrchu rhaglenni felly bydd yn rhaid inni gydweithio gyda'r sector annibynnol sy'n cyflenwi'r rhaglenni er mwyn gweithredu'r weledigaeth sydd yn y siarter hon. Wrth gwrs, mae amrywiaeth eisoes yn rhan annatod o'r straeon y mae nifer o'n cwmnïau eisoes yn eu dweud wrth y gynulleidfa. Bwriad yr ymrwymiad yma yw galluogi'r gweddill i wneud hyn hefyd ac i alluogi pawb i wneud mwy.

Ein bwriad yw annog newid yn gryf yn hytrach na gorfodi. Byddwn yn cadw llygad fanwl ar y meysydd yma ac yn monitro cyn gweithredu ymhellach – gan gynnwys gosod targedau pendant - os na fydd cynnydd pendant wedi bod o fewn cyfnod yr ymrwymiad hwn.

## 3. CREATING CONNECTIONS

**OBJECTIVE:** To get to know diversity groups and organisations across Wales

**WHAT:** Expanding our connections with diverse individuals, groups and organisations. We will introduce them to our content and encourage them to consider working in the industry. We will strongly encourage the sector to do so too.

**HOW:**

- **we will continue to support diverse new talent and voices.** We already support new talent through schemes such as It's My Shout, and we support diverse voices through our relationship with the Iris Prize and our support for Welsh language films at the festival;

- **encouraging the sector to expand its connections and the pool of talent it uses as contributors**, actors and behind the camera and to work with partners already taking action in the field, e.g. Ffilm Cymru Wales, Hi-Jinx, the Welsh Government and Diverse Cymru;

- **sharing best practice**, e.g. the work of the CDN and referring people to diversity partners via our website;

- **using our successful content to reach new audiences:** e.g. looking at taking Cyw shows to schools where Welsh is not the first language and to different, more diverse areas, and organising viewings in new locations and communities, including disadvantaged areas and communities. This will be relevant to the Welsh Government's goal of developing a million Welsh speakers by 2050, and

- **looking for opportunities to co-operate with other cultural partners in the field of diversity.**

WHEN: already underway (Cyw shows from 2019)

**TO CONCLUDE**

**This is not diversity for the sake of diversity, but the beginning of the journey to establish a support structure, so that S4C, the content that is created for us, and the industry, will confidently reflect our nation and touch the audience's heart. This will strengthen and enrich our content, ensuring a wider range of on-screen participants, and that their experiences and voices are heard.**

S4C does not produce programmes, so we will have to work with the independent sector that supplies the programmes to implement this charter's vision. Of course, diversity is already an integral part of the stories being told to the audience by many of our companies. This commitment aims to enable the rest to follow suit, and to enable everyone to do more.

Our intention is to strongly encourage change rather than enforce it. We will keep a close eye on these areas and conduct monitoring before taking further action – including setting clear targets – if there is no definite increase within the timeframe of this commitment.

**Sut i wylio S4C**
Mae gwasanaeth S4C ar gael ar ystod eang o lwyfannau a dyfeisiau Teledu ac Arlein.

**Ar deledu yng Nghymru:**
Freeview 4
Sky 104 (gan gynnwys HD)
Freesat 104 (gan gynnwys HD)
Virgin TV 166

**Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon:**
Sky 134 (gan gynnwys HD)
Freesat 120 (gan gynnwys HD)
Virgin TV 166

**Arlein ar draws y DU**
S4C Clic s4c.cymru
BBC iPlayer bbc.co.uk/tv/s4c

Fe allwch gysylltu ag S4C yng Nghaerdydd neu Gaernarfon, dros y ffôn, drwy ebost, twitter, facebook neu drwy lythyr.

**Gwefan**
s4c.cymru

**Ebost**
s4c@s4c.cymru

**Gwifren**
0370 600 4141

**Canolfan S4C Yr Egin**
Caerfyrddin
SA31 3EQ

**Swyddfa Caernarfon**
S4C Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi'n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.

Cysylltwch â ni os ydych yn dymuno fersiwn hygyrch o'r ddogfen.



**How to watch S4C**
S4C's service is available on Television and Online across a wide range of platforms and devices.

**On television In Wales:**
Freeview 4
Sky 104 (including HD)
Freesat 104 (including HD)
Virgin TV 166

**In England, Scotland and Northern Ireland:**
Sky 134 (including HD)
Freesat 120 (including HD)
Virgin TV 166

**Online across the UK**
S4C Clic s4c.cymru
BBC iPlayer bbc.co.uk/tv/s4c

You can contact S4C in Cardiff or Caernarfon, by phone, email, twitter, facebook or by letter.

**Website**
s4c.cymru

**Email**
s4c@s4c.cymru

**Gwifren**
0370 600 4141

**Canolfan S4C Yr Egin**
Carmarthen
SA31 3EQ

**Caernarfon office**
S4C Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

You are welcome to contact S4C in Welsh, and if you do so we will respond in Welsh and this will not lead to any delays.

Contact us if you would like an accessible version of this document.